**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad dilynol i dlodi plant: ai addysg yw'r ateb?

Crynodeb ac argymellion mewn Cymraeg clir

Chwefror 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Ymchwiliad dilynol i dlodi plant: ai addysg yw'r ateb?

Crynodeb ac argymellion mewn Cymraeg clir

Chwefror 2011

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Grŵp o bump o bobl sy'n gweithio fel Aelodau Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ydym. Mae pobl yng Nghymru wedi pleidleisio drosom i ni wneud hyn a'n gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am bethau a sut i wario arian (sef y llywodraeth) yn gwneud gwaith da. Yr enw ar ein grŵp ni yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

## Aelodau Cyfredol y Pwyllgor



**Helen Mary Jones (Cadeirydd)**
Llanelli
Plaid Cymru



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Sandy Mewies**
Delyn
Llafur



**Jonathan Morgan**
Gogledd Caerdydd
Plaid Geidwadol Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

Roedd yr Aelod isod hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Lynne Neagle**
Tor-faen
Llafur

# Cynnwys

**Neges gan y Cadeirydd** 5

**Argymhellion y Pwyllgor** 6

**Cefndir** 8

Beth yw tlodi plant? 8

Prif ddarganfyddiadau'r Pwyllgor 9

Yr angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gynllunio a gweithio gyda'i gilydd 9

Teuluoedd yn Gyntaf 10

Rhoi'r polisïau ar waith 10

**Sut y gall ysgolion helpu** 12

Dweud wrth eraill beth sy'n gweithio'n dda 12

Yr uned cefnogi partneriaethau 13

Helpu gyda chostau ychwanegol addysg 13

**Pontio** 16

**Ni all ysgolion atal effeithiau tlodi plant ar eu pennau eu hunain** 18

Ysgolion Bro 18

**Tystion** 20

**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** 21

## Rhestr termau

- **Argymhelliad:** awgrym cryf y dylid gwneud rhywbeth.
- **Arweiniad statudol:** cyngor y dylid ei ddilyn i osgoi torri'r gyfraith.
- **Awdurdod lleol:** cyngor lleol, wedi'i arwain gan grŵp o gynghorwyr sydd wedi'u hethol i benderfynu sut i wario arian yn yr ardal leol.
- **Cadeirydd**: Cadeirydd y Pwyllgor yw'r aelod y mae'r Pwyllgor wedi'i ethol i siarad ar eu rhan. Nid yw'n gallu gwneud penderfyniadau ar ran yr aelodau eraill ac nid yw'n gallu dweud wrth y Pwyllgor beth y dylent ei wneud.
- **Dileu:** cael gwared ar rywbeth yn gyfan gwbl.
- **Llywodraeth Cymru:** mae'n creu ac yn rhoi polisïau ar waith ac yn cael ei dwyn i gyfrif gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff ei harwain gan weinidogion sydd hefyd yn Aelodau'r Cynulliad.
- **Llywodraeth Leol:** dyma sut rydym yn cyfeirio at yr holl awdurdodau lleol fel grŵp.
- **Tlodi:** prinder arian, neu gyfleoedd, neu wasanaethau.
- **Tlodi plant:** prinder arian, neu gyfleoedd, neu wasanaethau sy'n golygu nad yw rhai plant a phobl ifanc yn cael yr un mantais ag eraill mewn bywyd.
- **Tystiolaeth**: y pethau mae pobl yn ei ddweud wrth y pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad drwy ysgrifennu, siarad neu drwy ddefnyddio dulliau eraill o gyfathrebu.
- **Ymchwiliad pwyllgor:** ymchwiliad i bwnc. Bydd ymchwiliad pwyllgor yn holi arbenigwyr a phobl y mae'r pwnc yn effeithio arnynt i gael gwybod beth y maent yn ei feddwl a sut y gallai pethau fod yn well. Yna bydd y Pwyllgor yn meddwl am yr holl bethau y mae pobl wedi'i ddweud wrthynt ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Does dim rhaid i Lywodraeth Cymru wneud fel mae'r Pwyllgor yn ei ddweud, ond os na fydd yn gwneud rhywbeth y mae'r Pwyllgor wedi'i argymell, mae'n rhaid iddynt ddweud pam.

## Neges gan y Cadeirydd

Mae un o bob tri o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae hynny'n golygu nad oes gan un o bob tri o blant yn ein gwlad ddigon o arian, na'r un cyfleoedd, â phlant eraill. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gwneud cymaint ag y gallwn i wneud yn siŵr bod holl blant Cymru yn cael dechrau da mewn bywyd a'u bod yn cael yr un cyfleoedd i ddysgu ac i ddatblygu â phlant eraill.

Daeth plant a phobl ifanc sydd wedi byw mewn tlodi i ddweud wrth y Pwyllgor sut brofiad oedd hynny. Buont yn sôn am fod yn oer ac yn llwglyd. Roeddynt yn cael llond bol ar gael eu bwlio gan nad oedd ganddynt yr un pethau â phlant eraill yn eu hysgol. Roeddynt yn aml wedi blino gormod i astudio yn yr ysgol gan eu bod yn cael eu cadw'n effro yn y nos gan sŵn yn y stryd. Roeddynt am i ni wneud rhywbeth i'w helpu.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar rai o'r problemau sy'n cael eu creu gan dlodi, ac mae'n gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru am y ffordd y gallai wella'r hyn y mae'n ei wneud yn barod i gael gwared ar dlodi plant yng Nghymru. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn cymryd y camau iawn, gan wneud hynny cyn gynted â phosibl, er lles yr holl deuluoedd sy'n dioddef oherwydd tlodi.

Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r tystion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor tra oeddem yn edrych ar dlodi plant. Diolch yn arbennig i blant a phobl ifanc Ysgol Gynradd Milbank, Trelái, Ysgol Gynradd Moorland, Y Sblot; Ysgol Uwchradd Willows a Chanolfan Ieuenctid Gogledd Trelái, am siarad mor agored ac onest gyda'r Pwyllgor. Gobeithio y bydd eich dewrder a'ch hyder yn eich helpu chi i gyflawni'ch gwir botensial mewn bywyd.

**Helen Mary Jones AC,**
**Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Darllenwch y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Recommendation 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i lywodraeth leol sy'n dweud y dylid cadw'r gwasanaethau y mae Cymorth yn talu amdanynt ac a fyddai hefyd yn gweithio'n dda o dan gynllun Teuluoedd yn Gyntaf, gan eu newid rhyw ychydig os oes angen, yn hytrach na'u colli'n gyfan gwbl. **(Tudalen 10)**

**Recommendation 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i greu set o fesurau i'w defnyddio i adolygu hynt Teuluoedd yn Gyntaf a'r Strategaeth Tlodi Plant. **(Tudalen 11)**

**Recommendation 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Teuluoedd yn Gyntaf a'r Strategaeth Tlodi Plant yn cael eu hadolygu ar adegau priodol yn y dyfodol. **(Tudalen 11)**

**Recommendation 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ddangos, erbyn 2012, sut y mae'r arian a gawsant drwy'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf wedi lleihau tlodi plant yn lleol. **(Tudalen 11)**

**Recommendation 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i lywodraeth leol helpu arweinwyr, staff a llywodraethwyr ysgolion i feithrin eu sgiliau arwain. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn llwyddo i annog ysgolion i greu amgylchedd a fydd yn helpu dysgwyr dan anfantais i wneud yn dda. **(Tudalen 12)**

**Recommendation 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod gan Datrys Tlodi Plant Cymru ddigon o staff i wneud yr holl waith y bydd angen iddynt ei wneud ar ôl cau'r Uned Cefnogi partneriaethau ym mis Ebrill 2011. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn meddwl yn ofalus am yr hyn y mae angen ei wneud ar ôl i'r uned gau, a pha waith y bydd yn bosibl

rhoi'r gorau iddo. Mae'n bwysig nad yw gwaith yn dod i ben drwy ddamwain, ond ei fod yn dod i ben gan fod Llywodraeth Cymru yn penderfynu nad oes ei angen bellach. **(Tudalen 13)**

**Recommendation 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holl dystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod yr ymchwiliad i'r mater hwn, ac wrth i CLlLC roi prosiectau ar waith. Ar ôl yr adolygiad, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i lywodraeth leol ar ddulliau o greu system prydau ysgol am ddim nad yw'n codi cywilydd ar blant a phobl ifanc. Dylai llywodraeth leol helpu ysgolion i sefydlu systemau o'r fath erbyn mis Medi 2012. **(Tudalen 15)**

**Recommendation 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod athrawon yn cael eu hyfforddi i ddeall y problemau y mae plant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig yn eu hwynebu er mwyn i athrawon fedru eu helpu i wneud eu gorau yn yr ysgol. **(Tudalen 17)**

**Recommendation 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i lywodraeth leol ar yr hyn y mae disgwyl i ysgolion bro ei wneud i helpu'r gymuned leol. **(Tudalen 19)**

**Recommendation 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i greu rhagor o ysgolion bro. Dylid cynnwys y gwaith o ddatblygu ysgolion bro yn y strategaethau tlodi plant y mae awdurdodau lleol yn eu cyhoeddi. **(Tudalen 19)**

## Cefndir

1. Dechreuodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ymchwilio i dlodi plant yn 2008. Gan fod y rhesymau dros dlodi plant, a'i effaith, yn amrywio gymaint, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar ymchwilio i'r ffordd y gallai'r system addysg helpu i atal tlodi plant.

2. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth dros gyfres o chwe chyfarfod ac, ym mis Tachwedd 2008, cafodd ei adroddiad ei gyhoeddi. Roedd yn cynnwys 27 o argymhellion i Lywodraeth Cymru.

3. Ym mis Ionawr 2009, ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor. O'r 27 argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor, roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn 13 ohonynt ac yn derbyn yr 14 arall mewn egwyddor. Mae derbyn argymhelliad mewn egwyddor fel arfer yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r hyn y mae'r argymhelliad yn ceisio'i wneud, ond y byddai'n well gan y Llywodraeth wneud hynny drwy gymryd camau gwahanol i'r rhai y mae'r Pwyllgor yn eu hawgrymu.

4. Ym mis Rhagfyr 2009 gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef Jane Hutt AC ar y pryd, a oedd Llywodraeth Cymru wedi newid y pethau y dywedodd y byddai'n eu newid, ac a oedd tlodi'n effeithio ar lai o blant o ganlyniad i hynny.

5. Penderfynodd y Pwyllgor edrych eto ar y pwnc ym mis Medi 2010 ac felly dechreuodd ei ymchwiliad dilynol i dlodi plant: ai addysg yw'r ateb?

6. Yn ystod yr ymchwiliad dilynol, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan dystion a oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi byw mewn tlodi.

**Beth yw tlodi plant?**

7. Pan fyddwn yn sôn am dlodi plant, rydym yn sôn am y modd y gall prinder arian effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc. Gall yr effeithiau hyn gynnwys yr anawsterau mwyaf amlwg y bydd teuluoedd yn eu hwynebu pan nad oes ganddynt ddigon o arian, fel gorfod penderfynu gwario'u harian naill ai ar gynhesu eu cartrefi neu ar brynu bwyd. Ond mae tlodi plant yn creu problemau eraill hefyd, sydd yr un mor niweidiol, fel diffyg cyfleoedd mewn bywyd i blant sy'n byw mewn tlodi. Gall tlodi gwasanaethau hefyd effeithio ar deuluoedd os na

fedrant dalu am y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, efallai oherwydd na fedrant dalu i deithio i'r man lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

**Prif ddarganfyddiadau'r Pwyllgor**

8. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried tlodi plant yn 2008, dyma oedd y tri pirf bwynt roeddynt am eu nodi:

- yr angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gynllunio a gweithio gyda'i gilydd i atal tlodi plant;
- y pethau y gall ysgolion ei wneud i helpu;
- y ffaith na all ysgolion atal effeithiau tlodi plant ar eu pennau eu hunain. Mae angen i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael help gan eu cymunedau hefyd.

9. Bydd yr adroddiad hwn yn edrych ar yr holl bwyntiau hyn yn eu tro.

**Yr angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gynllunio a gweithio gyda'i gilydd**

10. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i dlodi plant yn 2008, dywedodd tystion wrthynt fod gan Lywodraeth Cymru rai polisïau da ar dlodi plant, ond nad oeddynt bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Awgrymodd y tystion hynny nad oedd Llywodraeth Cymru, o bosibl, yn gwario arian yn y ffordd orau os nad oedd y polisïau roeddynt yn gwario arian arnynt yn gweithio gyda'i gilydd i atal tlodi plant.

11. Ym mis Tachwedd 2001, dywedodd Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant, wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn awr yn gwneud yn siŵr bod eu polisïau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod cyfraith newydd yng Nghymru, o'r enw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru yn awr gyhoeddi strategaeth tlodi plant sy'n disgrifio'r holl bethau y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal tlodi plant. Dylai'r strategaeth wneud yn siŵr bod y polisïau'n gweithio gyda'i gilydd i atal tlodi plant yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

12. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn golygu bod awdurdodau eraill Cymru, fel y Byrddau Iechyd Lleol, er enghraifft, hefyd yn gorfod cyhoeddi strategaethau tlodi plant a fydd yn disgrifio sut y byddant yn helpu i atal effeithiau tlodi plant.

13. Mae'r Pwyllgor yn falch y bydd y gyfraith newydd yn gwneud siŵr y bydd y strategaethau tlodi plant yn cael eu cyhoeddi gan fod hynny'n golygu y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill Cymru yn meddwl yn ofalus ac yn cynllunio sut y byddant yn helpu i atal tlodi plant.

## Teuluoedd yn Gyntaf

14. 'Teuluoedd yn Gyntaf' yw cynllun newydd Llywodraeth Cymru i helpu teuluoedd. Yn y gorffennol, mae rhai teuluoedd wedi gorfod gofyn am help gan lawer o wahanol bobl ond drwy'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf, ni ddylent orfod gwneud hynny'n awr. Dylai'r person sy'n eu helpu gyda phroblemau magu plant, er enghraifft, hefyd fedru rhoi cyngor iddynt am sut y leihau eu dyledion neu sut i ennill rhagor o arian.

15. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor y bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn helpu teuluoedd sydd â nifer o wahanol broblemau. Ond, oherwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn talu am help drwy'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl Ebrill 2012, ac y byddant yn stopio talu am yr help drwy'r hen gynllun Cymorth, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r help y mae teuluoedd yn ei gael ar hyn o bryd yn dod i ben.

16. Roedd y Pwyllgor yn croesawu Teuluoedd yn Gyntaf, ond roedd am i Lywodraeth Cymru ofalu nad yw'r gefnogaeth werthfawr a geir gan Cymorth yn cael ei golli pan fydd Teuluoedd yn Gyntaf yn cymryd ei le.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i lywodraeth leol sy'n dweud y dylid cadw'r gwasanaethau y mae Cymorth yn talu amdanynt ac a fyddai hefyd yn gweithio'n dda o dan gynllun Teuluoedd yn Gyntaf, gan eu newid rhyw ychydig os oes angen, yn hytrach na'u colli'n gyfan gwbl.**

## Rhoi'r polisïau ar waith

17. Dywedodd yr Athro David Egan wrth y Pwyllgor fod gan Gymru rai polisïau da, ond nad oeddynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Awgrymodd y dylid neilltuo amser i adolygu i ba raddau y mae pob polisi wedi cael ei roi ar waith, ac a oes angen ei newid o gwbl i wneud yn siŵr ei fod yn cyflawni'r union hyn yr oedd i fod i'w wneud.

18. Byddai unrhyw adolygiad o'r fath yn golygu bod angen mesur llwyddiant yn iawn. Mae angen deall bod modd gwneud hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd ac y dylid cael set o safonau i helpu pobl i fesur hynt llawer o wahanol brosiectau.

19. Un ffordd o wneud hynny yw drwy ddefnyddio'r 31 o gerrig milltir a'r targedau sydd wedi'u rhestru ym monitor lles plant a phobl ifanc Llywodraeth Cymru. Bydd y cerrig milltir a'r targedau hyn yn helpu i asesu pob prosiect yn drefnus fel bod modd cymharu llwyddiant gwahanol brosiectau.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i greu set o fesurau i'w defnyddio i adolygu hynt Teuluoedd yn Gyntaf a'r Strategaeth Tlodi Plant.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Teuluoedd yn Gyntaf a'r Strategaeth Tlodi Plant yn cael eu hadolygu ar adegau priodol yn y dyfodol.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ddangos, erbyn 2012, sut y mae'r arian a gawsant drwy'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf wedi lleihau tlodi plant yn lleol.**

## Sut y gall ysgolion helpu

20. Roedd y tystion i gyd yn cytuno y gall ysgolion wneud llawer i helpu i atal effeithiau tlodi plant. Roedd y tystion hefyd yn cytuno na all ysgolion wneud hynny ar eu pennau eu hunain

**Dweud wrth eraill beth sy'n gweithio'n dda**

21. Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor bod gwaith gwirioneddol dda yn cael ei wneud i atal tlodi plant mewn rhai rhannau o Gymru. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'n syniad da dweud wrth eraill pan fydd rhywbeth yn gweithio'n dda er mwyn gwneud yr un fath mewn lleoedd eraill.

22. Bydd ysgolion sydd â staff sy'n arweinwyr da yn chwilio am enghreifftiau o waith da a lwyddodd mewn mannau eraill. Mae'r Pwyllgor yn meddwl ei bod yn bwysig cael arweinwyr da mewn ysgolion, ond mae hefyd yn sylweddoli y gall fod yn anodd i staff wneud pethau newydd pan maent yn brysur iawn gyda'r holl waith sydd ganddynt i'w wneud yn yr ysgol.

23. Mae CLlLC wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i greu Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion. Mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol. Dywedodd CLlLC wrth y Pwyllgor bod brwdfrydedd ynglŷn â'r Fframwaith a bod awdurdodau lleol yn ei groesawu.

24. Dywedodd yr Athro David Egan wrth y Pwyllgor nad oedd rhywbeth a oedd yn gweithio'n dda mewn un ysgol bob amser yn gweithio cystal mewn ysgol arall. Roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai arweinwyr da mewn ysgolion fedru cymryd rhannau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda mewn un lle a'u defnyddio, neu eu newid ychydig, i wella'u hysgolion eu hunain.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i lywodraeth leol helpu arweinwyr, staff a llywodraethwyr ysgolion i feithrin eu sgiliau arwain. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd wneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn llwyddo i annog ysgolion i greu amgylchedd a fydd yn helpu dysgwyr dan anfantais i wneud yn dda.**

## Yr uned cefnogi partneriaethau

25. Mae Llywodraeth Cymru wedi talu i Datrys Tlodi Plant Cymru a'r Uned Cefnogi Partneriaethau rannu enghreifftiau o'r pethau da y maent wedi'i wneud i ddelio â thlodi plant. Ym mis Ebrill 2011, bydd yr Uned Cefnogi Partneriaethau'n cau. Roedd y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant yn poeni y byddai cau'r Uned Cefnogi Partneriaethau'n golygu na fydd y gwaith yr oeddynt yn ei wneud yn parhau yn y dyfodol. Bydd staff Datrys Tlodi Plant Cymru yn gwneud rhywfaint o'r pethau roedd yr Uned Cefnogi Partneriaethau'n ei wneud, ond nid y cyfan.

26. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, nid oedd yn glir pa waith na fyddai'n cael ei wneud ar ôl cau'r Uned Cefnogi Partneriaethau ym mis Ebrill 2011. Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn meddwl yn ofalus am hyn.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod gan Datrys Tlodi Plant Cymru ddigon o staff i wneud yr holl waith y bydd angen iddynt ei wneud ar ôl cau'r Uned Cefnogi partneriaethau ym mis Ebrill 2011. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn meddwl yn ofalus am yr hyn y mae angen ei wneud ar ôl i'r uned gau, a pha waith y bydd yn bosibl rhoi'r gorau iddo. Mae'n bwysig nad yw gwaith yn dod i ben drwy ddamwain, ond ei fod yn dod i ben gan fod Llywodraeth Cymru yn penderfynu nad oes ei angen bellach.**

## Helpu gyda chostau ychwanegol addysg

27. Mae teuluoedd nad oes ganddynt ddigon o arian i dalu am brydau ysgol, gwisg ysgol a thripiau ysgol yn gallu cael help i dalu am y costau hynny.

28. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor fod tua 97 y cant o'r rhai sy'n gymwys i gael grant gwisg ysgol yn ei gael. Mae hynny'n golygu bod y rhan fwyaf o deuluoedd a allai hawlio'r grant yn ei gael, ac roedd y Pwyllgor yn croesawu hynny. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod mai dim ond gwisg ysgol blaen roedd teuluoedd yn gallu'i phrynu â'r grant - nid oedd yn ddigon i brynu eitemau â logo'r ysgol arnynt, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ysgolion i ofyn iddynt feddwl a oedd rhaid cael logo ar wisg ysgol.

29. Dim ond tua 74 y cant o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd yn eu cael. Mae hynny'n golygu bod un o bob pedwar plentyn a allai hawlio prydau ysgol am ddim yn dewis peidio â'u cael.

30. Ysgrifennodd pobl ifanc o Ysgol Uwchradd Willows yn Nhreláі a Chanolfan Ieuenctid Trelái sgetsh i'w pherfformio o flaen y Pwyllgor. Yn y sgetsh, roeddynt yn awgrymu un rheswm pam nad oedd un o bob pedwar plentyn neu berson ifanc yn hawlio'r prydau ysgol am ddim er eu bod yn gymwys i'w cael. Dyma ran o'r sgetsh:

> **"Teacher:** It seems I have a solution to your problems. I've been having a word with a few people (*winks at the audience*) and they've been very kind to me and offered some money (*winks again*) to help pay for new uniforms for you.
>
> **Victim:** What! *(protesting*), I don't need help like that
>
> **Teacher:** Yes, I think you do.
>
> **Victim:** Ugh!
>
> **Teacher:** (*Breathes in and turns to the Bullies*) and also someone is coming in to talk to your parents to see if you both could be eligible for free school meals and then you won't need to 'tap' anyone for any cash to get some lunch.
>
> **Bully 2:** OMG, that is sooo embarrassing,
>
> **Bully 1**: Free school meals is so eww. Everyone knows free school meals is for doughnuts. Those tokens are just disgusting pieces of plastic.
>
> **Teacher:** don't worry a friend of mine (*winks to the audience again)* is looking into getting a new system to make it less obvious you are getting tokens for lunch.
>
> **Bully 2:** thank god for that
>
> **Bully 1**: Yeh."

31. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r cenhadon ifanc a fu'n gyfrifol am y cyflwyniad hwn i'r Pwyllgor. Roedd gonestrwydd a brwdfrydedd y plant a'r bobl ifanc yn gwneud eu tystiolaeth yn fwy grymus fyth.

32. Mae'r person ifanc yn y sgetsh yn ei gwneud yn amlwg bod yn well gan ddisgyblion beidio â chael prydau ysgol am ddim os oedd hynny'n golygu bod y system dalu'n dangos yn glir pwy sy'n talu am y prydau a phwy sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae'r tocynnau y cyfeirir atynt yn gwneud i blant a phobl ifanc deimlo cywilydd nad oes ganddynt gymaint o arian â disgyblion eraill.

33. Mae rhai ysgolion wedi treialu system sy'n defnyddio cardiau yn hytrach nag arian parod i dalu am brydau ysgol. Er bod disgyblion yn ychwanegu at eu cerdyn talu mewn gwahanol ffyrdd, maent i gyd yn defnyddio'r un cardiau ac nid yw'n amlwg pwy sy'n cael prydau ysgol am ddim.

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymchwilio i'r mater hwn ers tro. Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod maeth da yn bwysig i iechyd ac addysg plant ac, felly, dylid gwneud rhywbeth ynglŷn â phrydau ysgol am ddim ar unwaith.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r holl dystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod yr ymchwiliad i'r mater hwn, ac wrth i CLlLC roi prosiectau ar waith. Ar ôl yr adolygiad, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i lywodraeth leol ar ddulliau o greu system prydau ysgol am ddim nad yw'n codi cywilydd ar blant a phobl ifanc. Dylai llywodraeth leol helpu ysgolion i sefydlu systemau o'r fath erbyn mis Medi 2012.**

## Pontio

35. Dywedodd yr Athro David Egan wrth y Pwyllgor fod plant 11 oed yng Nghymru, dros y blynyddoedd, yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Erbyn iddynt gyrraedd 14-16 oed, fodd bynnag, mae tua chwarter ohonynt yn tangyflawni o ystyried eu perfformiad pan oeddynt yn 11 oed. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc hyn yn dod o gefndiroedd difreintiedig.

36. Awgrymodd yr Athro Egan mai un rheswm dros y gostyngiad mewn perfformiad oedd bod gobeithion a breuddwydion plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn wahanol i obeithio a breuddwydion plant o deuluoedd mwy cefnog. Dywedodd yr Athro Egan;

> "When you ask seven-year-olds or eight-year-olds in the most affluent and disadvantaged communities how many of you want to go to university, be a vet, or a doctor, a politician, a professor, or whatever you ask them, you will find that about the same proportion of young people put their hands up in those communities. If you go back to them about two or three years later, you will find a radically different picture. So something happens on that journey."[1]

37. Roedd yr Athro Egan yn teimlo bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn dod i gredu na fyddant yn gwneud cystal â phlant a phobl ifanc o deuluoedd mwy cefnog. Y perygl yw eu bod yn derbyn na fyddant yn gwneud cystal â phlant a phobl ifanc eraill gan nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd â nhw.

38. Os yw plant a phobl ifanc yn dod i dderbyn na fyddant yn gwneud cystal ag eraill, maent yn peidio â gweld yr ysgol a gwaith fel rhywbeth a fydd yn berthnasol iddyn nhw. O ganlyniad, maent yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi fel oedolion a bydd y patrwm yn dechrau eto ymhlith eu plant nhw yn y dyfodol.

39. Mae'n wirioneddol bwysig felly fod athrawon yn gwybod am y problemau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu pan fyddant yn byw mewn tlodi. Pan fydd athrawon yn gwybod am y problemau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu, gallant helpu i'w cefnogi a'u helpu i gredu y gallant wneud yn dda.

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 11 Ionawr 2011, paragraff 49

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod athrawon yn cael eu hyfforddi i ddeall y problemau y mae plant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig yn eu hwynebu er mwyn i athrawon fedru eu helpu i wneud eu gorau yn yr ysgol.**

## Ni all ysgolion atal effeithiau tlodi plant ar eu pennau eu hunain

40. Mae'n glir fod gan bob ysgol waith pwysig i'w wneud i helpu plant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd tlodi. Fodd bynnag, roedd yr holl dystion yn cytuno na all ysgolion wneud hynny ar eu pennau eu hunain.

41. Ni all plant ddysgu os ydynt yn llwglyd, yn oer ac yn flinedig, hyd yn oed os yw'r athrawon gorau'n eu dysgu. Ond dywedodd plant a phobl ifanc wrth y Pwyllgor eu bod yn aml yn cael trafferth cysgu oherwydd eu bod yn byw mewn ardaloedd sy'n swnllyd yn ystod y nos.

42. Mae rhai o blant a phobl ifanc o Gaerdydd wedi bod yn gweithio gydag Achub y Plant a Heddlu De Cymru i gynllunio posteri i'w gosod mewn tafarndai lleol. Mae'r posteri'n gofyn i bobl fod yn dawel wrth iddynt adael y dafarn rhag iddynt ddeffro plant.

43. Roedd y Pwyllgor yn meddwl bod hon yn ffordd dda o dynnu sylw pobl at anghenion plant a phobl ifanc yn y gymuned.

44. Mae'r Pwyllgor wedi dweud yn ei adroddiad ar Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu y dylid ystyried anghenion plant a phobl ifanc wrth gynllunio cymunedau gan eu bod yn rhan bwysig o'r cymunedau hynny.

**Ysgolion Bro**

45. Gall ysgolion bro fod o fudd i'r gymuned gyfan. Gallant gynnig help ac arweiniad i rieni disgyblion, gallant fod yn fan cyfarfod i bobl leol a gallant helpu oedolion i ddysgu sgiliau newydd.

46. Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Blant wrth y Pwyllgor nad oedd pobl yn deall yn iawn beth roedd ysgolion bro i fod i'w wneud.

47. Roedd rhai ysgolion bro yn dda iawn am gynnwys y gymuned ym mywyd yr ysgol, er mai'r cyfan yr oedd eraill yn ei wneud oedd caniatáu i'r gymuned leol ddefnyddio adeilad yr ysgol o bryd i'w gilydd.

48. Gall ysgolion bro wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r gymuned gyfan felly mae'n bwysig eu datblygu'n dda a'u bod yn gwybod beth y mae disgwyl iddynt ei wneud.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i lywodraeth leol ar yr hyn y mae disgwyl i ysgolion bro ei wneud i helpu'r gymuned leol.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i greu rhagor o ysgolion bro. Dylid cynnwys y gwaith o ddatblygu ysgolion bro yn y strategaethau tlodi plant y mae awdurdodau lleol yn eu cyhoeddi.**

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn yn : http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp3-inq-childpov/cyp3-cp/cyp3-cp-committee_papers.htm

*2 Tachwedd*

| | |
|---|---|
| Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldebau a Chyfiawnder Cymdeithasol CLlLC<br>Emily Warren, Swyddog Polisi Iechyd  Gwasanaethau Cymdeithasol CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

*16 Tachwedd*

| | |
|---|---|
| Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant,<br>Eleanor Marks, Pennaeth yr Is-adran Cymunedau | Llywodraeth Cymru |

*11 Ionawr*

| | |
|---|---|
| Cecile Gwilym, Swyddog Polisi Cymru - NSPCC Cymru<br>Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru<br>Geraldine Murphy, Swyddog Rhanbarth Gorllewin De Cymru a Chanolbarth  Cymru yr Uned Cefnogi Partneriaethau<br>Lindsay Kearton – Uwch Eiriolwr Polisi -  Llais Defnyddwyr Cymru | Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant |
| Yr Athro David Egan | UWIC |

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yw holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-inquiry/cyp3-inq-childpov/cyp3-cp/cyp3-cp-committee_papers.htm

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | CP 01 |
| | AWE 01 |
| Cyngor ar Bopeth Cymru | CP 02 |
| | CP 02a |
| Continyou Cymru | CP 03 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | CP 04 |
| Yr Athro David Egan | CP 05 |
| Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant | CP 06 |
| Achub y Plant | AWE 02 |
| | AWE 03 |
| | AWE 04 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | AWE 05 |
| Ysgol Gynradd Millbank, Trelái | AWE 06 |
| Ysgol Gynradd Moorland, Y Sblot | AWE 07 |
| Ysgol Uwchradd Willows a Chanolfan Ieuenctid Gogledd Trelái | AWE 08 |
| Uned Cefnogi Partneriaethau | AWE 09 |